**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 03-02(p5)**

**Dyddiad:** **30 Ionawr 2002**
**Amser:** **14.00 - 17.00**
**Lleoliad:** **Ystafell Pwyllgor 3, Adeiliad Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd**
**Teitl:** **Cynllun Busnes Awdurdod Harbwr Caerdydd 2000-2005**

***Diben***

1. Nodyn cefndir i fynd gyda Chynllun Busnes ("y Cynllun") Awdurdod Harbwr Caerdydd (AHC). Dosbarthodd yr Ysgrifenyddiaeth gopi printiedig o’r Cynllun i aelodau’r Pwyllgor Datblygu Economaidd ychydig cyn gwyliau’r Nadolig. Mae’r Cynllun hefyd ar gael yn Gymraeg.

***Crynodeb/Argymhellion***

2. Bod unrhyw sylwadau ar y Cynllun yn cael eu nodi a’u trosglwyddo i AHC drwy lythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd. Efallai hefyd y bydd y Pwyllgor yn dymuno gofyn am gael cyfarfod gydag AHC.

***Amseru***

3. Yn unol â’r drefn arferol.

***Cefndir***

4. Mae’r Cynllun yn ymdrin yn bennaf â chyfrifoldebau Cyngor Sir Caerdydd mewn perthynas â rheoli a gweithredu’r Morglawdd; y bae Mewndirol; a’r Harbwr Allanol. Sefydlwyd AHC ar 1 Ebrill 2000 at y diben.

5. Er bod yr egwyddorion wedi’u sefydlu yn y Memorandwm Dealltwriaeth a lofnodwyd ar 1 Hydref 1999, y brif ddogfen, cyn belled ag y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y cwestiwn a sail y trefniadau ariannu yw Cytundeb adran165 ‘awdurdod yr harbwr’. Mae’r Cytundeb hwnnw yn nodi union gyfrifoldebau AHC ("yr ymgymeriad") a hefyd yn darparu bod AHC yn ysgwyddo’r cyfrifoldeb am nifer o leiniau o dir a phrosiectau cyflawn megis:

- prosiect y Morglawdd;
- yr Oval Basin
- tirlunio Widowlands
- Teras Bute (lle mae’n ffinio â’r Oval basin);
- Gerddi Landsea (drws nesaf i Harry Ramsdens); a’r

- Dociau Sych

6. A bod yn fanwl gywir, nid yw’r Cynllun yn cwmpasu’r cyfrifoldebau ychwanegol a’r arian cysylltiedig a ysgwyddwyd gan Gyngor Sir Caerdydd o dan yr ‘asedau annatblygadwy’ yn y Cytundeb adran 165. Ymysg y rhain y mae’r Gronfa Adfywio a’r Gronfa Prosiectau sy’n rhan o drefniadau adrodd ar wahân. Fodd bynnag, mae’r Cynllun yn rhoi ystyriaeth i rai o’r prosiectau a gynorthwyir gan y Cronfeydd hyn pan fyddant yn berthnasol i dalgylch a chynlluniau AHC (er enghraifft, y Bay Edge Walkway/Cycleway; y warchodfa wlyptiroedd fach ym Mhenrhyn Hamadryad; a datblygu mynediad i’r Morglawdd o ben gogleddol y Morglawdd). Mae trafodaethau’n cael eu cynnal gydag ABP ynghylch datblygu Canolfan i Ymwelwyr a swyddfeydd newydd yr Awdurdod fel rhan o’i adeilad newydd yn Queen Alexandra Head.

7. Nid oes angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru gymeradwyo’r Cynllun yn ei grynswth, er bod Gweinidogion a swyddogion yn monitro sawl agwedd arno er mwyn sicrhau y cyrhaeddir y targedau allweddol. Ymysg y rhain y mae: gwariant yn erbyn cyllidebau; cwblhau prosiect y morglawdd; cwblhau’r prosiect carthu; cwblhau’r gwaith o gronni’r dr croyw; a chynnal ansawdd y dr. Mae’r cynllun dr daear hefyd yn bwysig.

8. Cafodd y Cynllun ei ddatblygu a’i gwblhau gan Awdurdod Harbwr Caerdydd yn bennaf yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Cyflawnwyd llawer o’r cerrig milltir a’r targedau allweddol, sef

- Cwblhau prosiect y Morglawdd a’i weithredu’n awtomatig yn ystod camau terfynol y broses rhoi ar brawf;
- Agor y Morglawdd i’r cyhoedd a chwblhau Cam 1 o’r gwaith tirlunio;
- Cwblhau’r gwaith carthu erbyn 31 Mawrth 2001;
- Cwblhau’r gwaith o gronni’r dr croyw erbyn 1 Ebrill 2001
- Caffael a gosod y system Ocsigenu/Awyru.

9. Mae’r Cynllun Ariannol yn hen erbyn hyn a chynghorir aelodau’r Pwyllgor i droi at yr adroddiad diweddaraf a gyflwynwyd ger bron y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2001 (EDC-16-01(p5)). Mae’r broses o werthuso’r agweddau ariannol yn fanwl yn mynd rhagddi ac mae llawer o’r gwaith yn gysylltiedig ag adolygiad cyfredol yr NAO o flwyddyn gyntaf trefniadau olynu Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd.

***Cydymffurfiaeth***

10. Dyma’r dogfennau perthnasol:

  - Deddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993;
  - Cytundeb, dyddiedig 27 Mawrth 2000, o dan Adran 165 o Ddeddf Cynllunio a Thir

Llywodraeth Leol 1980 (fel y'i diwygiwyd) rhwng Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd a Chyngor Sir Caerdydd;

- OS 996 (Cy.53) Datblygu Trefol Cymru. Gorchymyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2000.
- OS 997 (Cy.54) Datblygu Trefol Cymru. Gorchymyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2000.

11. Dirprwywyd Swyddogaethau'r Cynulliad o dan yr uchod i'r Prif Weinidog a'r portffolio Datblygu Economaidd.

***Themâu Trawsbynciol***

12 Mae Awdurdod Harbwr Caerdydd, fel rhan o Gyngor Sir Caerdydd, yn dilyn polisïau'r Cyngor mewn perthynas â Datblygu Cynaliadwy, Cyfle Cyfartal a Chynhwysiant Cymdeithasol.

***Camau i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ei Cymryd***

13. Yn unol â'r *Argymhelliad* uchod.

***Man Cyswllt***

Yr Is-adran Polisi Economaidd, Cangen 2.